
Gwasanaeth Gwaed Cymru
Welsh Blood Service

# Adroddiad Ymchwil Datblygu ac Arloesi

Awst 2022



# Ein Gweledigaeth

Bydd Gwasanaeth Gwaed Cymru yn datblygu gofal rhoddwyr a meddyginiaeth trallwyso a thrawsblannu, drwy sefydlu a chymryd rhan mewn ymchwil gwasanaethau iechyd o ansawdd uchel.

# Rhagair

Rydym yn falch iawn o roi gwybod i chi ein bod ni wedi cael cydnabyddiaeth ffurfiol mewn perthynas â'n hymdrechion yn ystod COVID-19, drwy'r ffaith ein bod ni wedi cael ein henwebu ar gyfer Gwobrau GIG Cymru. Rydym wedi cael ein henwebu ar gyfer y categori *Darparu Gwasanaethau mewn Partneriaeth ar draws y GIG yng Nghymru.* Mae'r categori hwn yn adlewyrchu'r ffaith i ni wireddu nod ein strategaeth ymchwil, sef "*bod yn agored i gydweithio",* gan gefnogi ystod o bartneriaid. Rydym yn falch iawn o'n cyflawniadau, ac yn credu bod y gydnabyddiaeth hon yn adlewyrchu gwaith caled yr holl staff sy'n rhan o'r gwaith o gwblhau'r prosiect hwn.

Rydym yn taflu goleuni ar adran o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru hefyd, sy'n mynd y tu hwnt i roi gwaed. Mae gwaith nyrsys, gwyddonwyr a chlinigwyr Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn rhagorol. Mae'n darparu'r modd i drin canserau'r gwaed, gwaed, y system imiwnedd, ac anhwylderau metabolig.

Mae'r Gofrestr yn gweithio'n gydweithredol ym maes ymchwil. Mae hyn yn cael ei ddangos drwy ymgysylltu â chanolfannau ymchwil trawsblannu a rôl y gofrestr yn thema Therapïau Cellog yr adran Ymchwil, Datblygu ac Arloesi. Bydd y ffaith iddynt symud yn ddiweddar i Ganolfan Ganser Felindre yn eu rhoi ar flaen y gad o ran darparu therapïau cellog datblygedig, a darparu systemau rheoli rhoddwyr o ansawdd uchel ar gyfer canolfannau trawsblannu ar draws y byd. Dyma lle mae ein gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Siân James



**Arweinydd Hwyluso Ymchwil, Datblygu ac Arloesi**
**Gwasanaeth Gwaed Cymru**

**Ynglŷn â'r ddogfen hon**
Yn y ddogfen hon, ceir crynodeb gyfoes o'r holl weithgarwch ymchwil, datblygu ac arloesi arfaethedig, parhaus neu wedi'i gwblhau o fewn Gwasanaeth Gwaed Cymru.

Mae'r fersiwn hon o'r ddogfen wedi cael ei haddasu'n arbennig fel y gall y rhoddwyr, y cleifion a'r cyhoedd weld y gweithgaredd Ymchwil, Datblygu ac Arloesi maen nhw'n ei gefnogi drwy roi gwaed, bôn-gelloedd ac organau.

# Cynllun Serowyliadwrieth COVID-19 wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr GIG Cymru

Mae cynllun serowyliadwraeth cenedlaethol COVID-19 Cymru, y mae Gwasanaeth Gwaed Cymru'n bartner ohono, wedi cael ei enwebu am **Wobr GIG Cymru.**

Caiff cynllun serowyliadwraeth COVID-19 ei ddosbarthu mewn partneriaeth â phedwar sefydliad GIG Cymru. Ein rôl yng Ngwasanaeth Gwaed Cymru yw darparu samplau gwaed a gwybodaeth ddemograffig i'r cynllun, er mwyn iddynt gael eu dadansoddi'n epidemiolegol. Mae'r cynllun yn diweddaru Llywodraeth Cymru ar y newidiadau mewn imiwnedd o ganlyniad i heintiau a brechlynnau i'r feirws COVID-19 ym mhoblogaeth oedolion Cymru, fis ar ôl mis. Mae'r prosiect, a ddechreuodd yn ystod y don gyntaf yn 2020, wedi prosesu dros 66,000 o samplau hyd yn hyn. Mae hyn yn cefnogi penderfyniadau effeithiol am raglenni brechu a mesurau iechyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r cynllun wedi cael ei enwebu ar gyfer y categori 'Darparu Gwasanaethau mewn Partneriaeth ar draws GIG Cymru'.

Dr Siân James sy'n arwain y prosiect ar ran Gwasanaeth Gwaed Cymru, sy'n cynnwys gweithio'n eang ar draws y sefydliad o fewn disgyblaethau gwahanol. Mae'r gwaith trawsadrannol hwn, ar y cyd â'r bartneriaeth rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, wedi cael ei gydnabod am ei effaith drwy gael ei enwebu am y wobr.

Mae'r cynllun wedi cael sylw yn ein hadroddiadau blaenorol, ac mae'n parhau i fod yn allweddol i'n thema ymchwil Rhoddwyr. Ar ben-blwydd cyntaf y prosiect, fe wnaethom estyn diolch i'n cydweithwyr sy'n parhau i ddarparu'r prosiect hwn. Yn ddiweddar, buom yn dathlu ail ben-blwydd y prosiect hwn, ac fe wnaethom rannu diweddariad ar y prosiect a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda chydweithwyr. Cafodd ein rhoddwyr, sy'n gwneud y prosiect hwn yn bosibl, eu cydnabod yn llawn yn ein cyflwyniad i'r gwobrau.

Roedd gan Alan Prosser, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwaed Cymru, y canlynol i'w ddweud am y prosiect:



*'Mae'r prosiect hwn yn enghraifft wych o sut y gall Gwasanaeth Gwaed Cymru wneud mwy o gyfraniad at iechyd a lles poblogaeth Cymru. Rydym wedi cymryd camau i integreiddio'r defnydd o samplau ar gyfer mentrau iechyd cyhoeddus i'n prosesau. Bydd hyn yn caniatáu i Wasanaeth Gwaed Cymru ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r prosiect hwn wrth gydweithredu yn y dyfodol.*

*Rydym yn hynod falch o gael ein hymagwedd gadarnhaol at gydweithio a chreu partneriaethau cryf wedi ei gydnabod. Mae cael ein rhoi ar y rhestr fer am wobr fel hon yn dyst i broffesiynoldeb ein staff i sicrhau llwyddiant y prosiect hwn.*

*Da iawn i'r tîm, a phob lwc gyda'r gwobrau ym mis Hydref 2022.'*

# Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru

**Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru, sydd yn 33 mlwydd oed erbyn hyn, yn parhau i fod yn allweddol mewn perthynas ag ymdrechion Ymchwil, Datblygu ac Arloesi Gwasanaeth Gwaed Cymru.**

Panel o roddwyr ydy Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru sydd wedi gwirfoddoli i roi eu bôn-gelloedd os ydyn nhw'n cydweddu â chlaf sydd angen trawsblaniad. Gall trawsblaniadau bôn-gelloedd drin rhai mathau o ganser a chlefydau eraill y gwaed, a'r system imiwnedd.

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn prosesu tua 1,000 o geisiadau y mis. Gall ceisiadau fod i gleifion yng Nghymru, y DU ac ar draws y byd i chwilio am roddwr sy'n cydweddu'n agos â math o feinwe'r derbynnydd bwriadedig.

Yn y DU, mae tua 2,000 o drawsblaniadau bôn-gelloedd alogenëig yn cael eu perfformio bob blwyddyn, ac mae'r galw'n cynyddu.

**Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn chwaraewyr allweddol yn ein thema Therapïau Cellog**

Yn ddiweddar, fe wnaethom newid enw'r thema hon i Therapïau Cellog. Mae'r ailffocysu hwn yn cydnabod y cynnydd yn y defnydd o gynnyrch bôn-gelloedd ac mewn lleoliadau trawsblannu celloedd. Mae'n cwmpasu arbenigeddau gweithredu cofrestr rhoddwyr, adalw celloedd a gweithrediadau logistaidd. Mae'n golygu hefyd, y gallwn ei gwneud yn fwy hysbys bod gan Wasanaeth Gwaed Cymru ddiddordeb yn y maes hwn, a dangos y pethau sy'n debyg gyda sefydliadau gwaed a'r grwpiau sy'n defnyddio'r term hwn.

Rydym wedi diweddaru ein holl ddogfennau i adlewyrchu'r newid hwn, ond roeddem eisiau sicrhau eich bod chi'n ymwybodol ohono hefyd.

**Cydweithio ar lefel ryngwladol ar gyfer ymchwil therapi cellog**

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn gweithio ochr yn ochr â Thîm Gwaed a Thrawsblaniadau De Cymru yn Ysbyty Athrofaol Cymru, i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r therapïau "CAR-T". Mae CAR-T (chimeric antigen receptor T-cells) yn driniaeth imiwnotherapi sy'n golygu cymryd celloedd cleifion a'u haddasu i adnabod celloedd canser heintiedig. Yna, mae'r celloedd hyn sydd wedi cael eu hail-addasu yn cael eu dychwelyd i'r claf, gyda'r gobaith y bydd y celloedd CAR-T yn ymladd y canser i ffwrdd ac yn gwella iechyd.

**Rhoddwyd 1400fed rhodd Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yng nghanolfan gasglu blaenllaw Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yng Nghanolfan Ganser Felindre**



Mae’r gofrestr yn ymuno â sefydliadau rhyngwladol hefyd, i gefnogi darparu Cynhyrchion Meddyginiaethol Therapiwtig Uwch i gleifion rhyngwladol. Mae datblygu cyfleuster afferesis bôn-gelloedd newydd yng Nghanolfan Canser Felindre yn galluogi Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru i gefnogi rhaglenni amrywiol a darparu ein gwasanaeth hanfodol yn y gadwyn cyflenwi therapi cellog.



**Cefnogi Ymchwil**

Mae'r Gofrestr wedi bod yn cymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil dan arweiniad Prifysgol Caerdydd ers 2017, gan gynorthwyo yng ngofal cleifion â lewcemia myeloid acíwt.

Mae'r astudiaeth yn cymharu samplau mêr esgyrn gan roddwyr gwirfoddol iach gyda samplau gan gleifion sydd â lewcemia myeloid acíwt, i asesu rôl y celloedd cefnogol yn y mêr esgyrn i ddiogelu celloedd lewcemia. Mae'r gofrestr wedi recriwtio 34 o roddwyr mêr esgyrn ar gyfer yr astudiaeth hyd yma.

Mae Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn edrych ar yr angen sydd heb ei ateb hefyd, o amgylch cleifion o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. Yr her yw dod o hyd i roddwyr addas gyda theip HLA sy’n cydweddu. Bydd Cydlynydd Cyfathrebu ac Ymgysylltu Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn dadansoddi deunyddiau recriwtio presennol i nodi strategaethau marchnata cymdeithasol a allai ddatblygu amrywiaeth y panel, a mynd i'r afael â rhwystrau i fod yn rhoddwr o fewn cymunedau sydd yn cael eu tangynrychioli.

Yn ddiweddar, fe gyd-ysgrifennodd Pennaeth dros dro Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru bapur a gyhoeddwyd yn y cyfnodolyn Bone Marrow Transplantation, ar effaith y pandemig COVID-19 ar roddion bôn-gelloedd sydd ddim yn perthyn ar draws y byd.

**Beth sydd ar y gweill o ran ymchwil?**

Hoffai Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru gynnal astudiaeth yn y dyfodol ar effaith storio ar fôn-gelloedd haematopoietig. Byddai hyn yn adolygu storio nitrogen hylif dros y tymor hir, a sut mae celloedd ffres yn cael eu cludo ar gyfer eu trawsblannu ar unwaith. Bydd ansawdd celloedd yn cael eu hasesu o ran y cyfrif celloedd a hyfywedd y celloedd. Byddai'r astudiaeth hon yn darparu mewnwelediad o ran sut rydym yn storio bôn-gelloedd haematopoietig ar ôl eu casglu a chyn eu trawsblannu.

Yn ogystal, amheuir y gallai proffil HLA pobl iau fod yn newid. Byddai'n fuddiol i'r Gofrestr archwilio'r proffiliau genetig hyn a nodweddion rhoddwyr, gan y bydd yn effeithio ar ofynion amrywiol gwasanaeth cofrestr rhoddwyr.

Bydd Cydlynydd Casglu Celloedd Cofrestr Rhoddwyr Mêr Esgyrn Cymru yn sefydlu prosiect academaidd hefyd, a fydd yn dechrau yn gynnar yn 2023.

# Portffolio Prosiectau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi



# Mae gennym 9 prosiect

**Prosiectau fesul Thema**


   

| Trawsblannu | Cynnyrch | Rhoddwyr | Therapïau Cellog |
|---|---|---|---|
| Yn cynnwys: trawsblannu organau solet a bôn-gelloedd, histogydnawsedd ac imiwnedd, a chofrestri rhoddwyr | Yn cynnwys: cydrannau gwaed, imiwnohematoleg, profi, gweithgynhyrchu cydrannau a chynnyrch, rheoli ansawdd, a gwerthuso offer a deunyddiau | Yn cynnwys: recriwtio a chadw rhoddwyr, cymhwysedd a gofal, a gwyliadwriaeth iechyd y cyhoedd. | Yn cynnwys pynciau sy'n ymwneud â therapïau cellog a therapïau gwaed eraill |
| 2 | 3 | 3 | 1 |

## Cyhoeddiadau

yn ystod y 12 mis diwethaf

Rydym yn cyhoeddi mewn cyfnodolion ac yn cyflwyno mewn cynadleddau i rannu canfyddiadau ac adeiladu ein henw da yn y gymuned ymchwil. Mae staff sy'n ymgymryd â chymwysterau academaidd yn cynhyrchu thesis myfyrwyr sy'n cyfrannu at lenyddiaeth wyddonol.






**Mae 37 o gydweithwyr yn rhan o'r gwaith o ddarparu Ymchwil, Datblygu ac Arloesi ar hyn o bryd**

Gall cydweithwyr gyflawni ymchwil dan arweiniad Gwasanaeth Gwaed Cymru, neu gefnogi ymchwil eraill. Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys y rhai sy'n gwneud gwaith ymchwil fel rhan o gymhwyster hefyd.

# Cyhoeddiadau

Cyhoeddiadau effaith uchel gan staff Gwasanaeth Gwaed Cymru a'n cydweithwyr yn y tri mis blaenorol.

## Erthyglau mewn Cyfnodolion

### In vitro storage characteristics of neonatal platelet concentrates after addition of 20% PAS-E

**Christine Saunders**

**Troednodyn:** Saunders, C., Pearce, N. a George, C., 2022. In vitro storage characteristics of neonatal platelet concentrates after addition of 20% PAS-E. *Vox Sanguinis*,.

### The Platelet Storage Lesion - Novel Approached to Optimise the Function and Quality of Stored Platelet Concentrates

**Jamie Nash**

**Troednodyn:** Nash, Jamie 2022. *The platelet storage lesion - Novel approaches to optimise the function and quality of stored platelet concentrates.* Thesis PhD, Prifysgol Metropolitan Caerdydd

### Mathematical Modelling to Support Blood Collection for the Welsh Blood Service

**Emily Williams**

**Troednodyn:** Williams, Emily Paige 2022. *Mathematical modelling to support blood collection for the Welsh Blood Service.* Traethawd PhD, Prifysgol Caerdydd

**Mae'r adroddiad hwn yn cael ei baratoi gan**

Research Development & Innovation **Facilitation**





Enwebai Gwobr GIG Cymru, Courtney Morris &
Enwebai Gwobr GIG Cymru, Sian James

Yn ddilys tan fis Ionawr 2022














**Diolch i'r rhoddion gwaed, platennau a thrawsblaniadau sy'n gwneud ein hymchwil yn bosibl.**

**Gwasanaeth Gwaed Cymru**
**Welsh Blood Service**